Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio Datblygiad – Arolwg Cwsmeriaid 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 4
2. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol – Rheoli datblygiadau ..... 5
   2.1 Crynodeb o ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 5
3. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol – Cynllunio Strategol ..... 6
   3.1 Crynodeb o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 6
4. Cefndir yr astudiaeth ..... 7
   4.1 Diffinio effeithiolrwydd ..... 7
   4.2 Cyfyngiadau i'r gwaith ..... 8
5. Canfyddiadau Arolwg Rheoli Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 9
   5.1 Rheoli datblygiad – Safbwyntiau cyffredinol ..... 9
      5.1.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 9
      5.1.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Meysydd i'w Gwella ..... 11
   5.2 Rheoli datblygiad – Gwerth a ychwanegwyd gan gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 11
      5.2.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 11
      5.2.2 Nodi meysydd i'w gwella – gwerth a ychwanegwyd gan gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 12
      5.2.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Meysydd i'w Gwella ..... 13
   5.3 Rheoli datblygiad – ymgysylltiad cynnar ..... 13
      5.3.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 13
      5.3.2 Nodi meysydd i'w wella – Ymgysylltiad cynnar ..... 14
      5.3.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella ..... 15
   5.4 Rheoli datblygiad – Dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau ..... 15
      5.4.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 15
      5.4.2 Nodi meysydd i'w gwella – defnyddio dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau ..... 16
      5.4.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau gweithredu ar gyfer gwella ..... 17
   5.5 Rheoli datblygiad – eglurder cyngor ..... 17
      5.5.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 17
      5.5.2 Nodi meysydd i'w gwella – eglurdeb cyngor ..... 18
      5.5.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau gweithredu ar gyfer gwella ..... 18
   5.6 Rheoli datblygiad – tryloywder ..... 18
      5.6.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 18
      5.6.2 Meysydd i'w gwella – tryloywder cyngor ..... 19
      5.6.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru - camau gweithredu ar gyfer gwella ..... 20
   5.7 Rheoli datblygiad – amseroedd ymateb ..... 20
      5.7.1 Canlyniadau'r arolwg ..... 20
      5.7.2 Nodi meysydd i'w gwella ..... 20

5.7.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau ar gyfer gwella ... 21
5.8 Boddhad cwsmeriaid – boddhad cyffredinol ... 21
5.8.1 Canlyniadau'r arolwg ... 21
5.9 Boddhad ar wasanaethau yn ôl maes ... 24
6. Canfyddiadau Arolwg Cynllunio Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ... 24
6.1 Cynllunio Datblygiad – Deall rôl a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru ... 25
6.1.1 Canlyniadau'r arolwg ... 25
6.1.2 Nodi meysydd i'w gwella – deall rôl Cyfoeth Naturiol Cymru ... 25
6.1.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella ... 26
6.2 Cynllunio Strategol – Canfyddiadau ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 26
6.2.1 Canlyniadau'r arolwg ... 26
6.2.1 Nodi meysydd i'w gwella – Canfyddiadau ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ... 27
6.3 Cynllunio Strategol – Ansawdd Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ... 27
6.3.1 Canlyniadau'r arolwg ... 27
6.3.2 Nodi meysydd i'w gwella – ansawdd ac effaith tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ... 29
6.3.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella ... 30
6.4 Cynllunio strategol – ymgysylltiad gweithredol ... 30
6.4.1 Canlyniadau'r arolwg ... 30
6.4.2 Nodi meysydd i'w gwella – ymgysylltiad gweithredol ... 32
6.4.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – meysydd i'w gwella ... 33
6.5 Mewnbwn Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â phrosesau cynllunio penodol ... 33
6.5.1 Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AASau) ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhCau ... 33
6.5.2 Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol ... 36
6.6 Casgliad: Boddhad cyffredinol ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynlluniau strategol ... 37
Casgliad ... 39

# 1. Cyflwyniad

Rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Chwefror 2016 cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru astudiaeth i asesu pa mor dda mae ei gyngor ar ymgynghoriadau cynllunio a chynlluniau strategol yn cael ei dderbyn gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau'r gwaith hwn.

Dau ddiben oedd i'r astudiaeth hon. Ers ei ddechrau yn 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adrodd yn rheolaidd ar amseroldeb ei ymatebion, yn rhan o'i adroddiad am ei gynllun corfforaethol. Er bod amseroldeb yn rhoi mesur defnyddiol ynglŷn â sut mae ein gwasanaeth cynllunio'n perfformio, mae'r mewnwelediad mae'n ei ddarparu i'r hyn sy'n digwydd i'r cyngor ar ôl i'r awdurdod cynllunio ei dderbyn yn gyfyngedig. Felly, roedd yr astudiaeth hon yn ceisio datblygu dangosydd ychwanegol i fesur effeithiolrwydd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y dangosydd hwn yn cael ei ddefnyddio'n rhan o adrodd Cyfoeth Naturiol Cymru am gynnydd yn erbyn amcanion ein cynllun corfforaethol.

Yn ogystal, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i gael trosolwg strategol o ba agweddau ar ei wasanaeth cynllunio sy'n gweithio'n dda, ac unrhyw feysydd mae angen eu gwella. Yn hyn o beth, bydd canfyddiadau'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio i lywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol.

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru dros y 12 mis diwethaf, ac o'r herwydd mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â 2015 yn unig. Ein bwriad yw ailgynnal yr arolwg bob blwyddyn i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth sy'n addas i'r diben.

At ei gilydd roedd canfyddiadau'r arolwg yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud bod ganddynt hyder yn y cyngor roeddent yn ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a bod y cyngor wedi gwneud gwahaniaeth i'r penderfyniadau roeddent yn eu gwneud. Fodd bynnag, roedd hefyd rai meysydd lle dywedodd ymatebwyr y gellid gwneud gwelliannau.

Yn yr amser ers i'r arolwg gael ei gynnal mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i wella ei wasanaeth cynllunio. Pan fydd hyn yn berthnasol, mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r mesurau hynny ac yn cynnig argymhellion pellach ar gyfer gwella.

Yn 2016, ddechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru raglen wella ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol hefyd. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu defnyddio yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth i nodi meysydd i'w gwella. Trwy weithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol, disgwylir y bydd camau gweithredu manylach ar gyfer gwella'n cael eu nodi.

Gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ynglŷn ag achosion rheoli datblygiad a chynlluniau strategol, mae canfyddiadau'r astudiaeth hon wedi cael eu rhannu yn unol â hyn trwy gydol yr adroddiad hwn, gydag Adran 2 yn amlinellu prif ganfyddiadau'r gwaith. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan ganlyniadau manylach yr arolygon.

## 2. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol – Rheoli datblygiadau

- Ar y cyfan mae gan ymatebwyr lefel uchel o hyder yn y cyngor maent yn ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a dywedodd bron i 80% o ymatebwyr fod y cyngor wedi cyfrannu at y penderfyniadau ynglŷn â'r achosion roeddent wedi ymdrin â nhw yn y 12 mis diwethaf.

- Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ymarferol a chlir sy'n eu helpu i osgoi a/neu leihau effeithiau andwyol. Dywedodd dros 80% o ymatebwyr eu bod o'r farn bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at y broses o benderfynu ceisiadau cynllunio.

- Ar y cyfan mae awdurdodau cynllunio'n fodlon bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio dull sy'n gymesur â'r risgiau dan sylw, ac yn perfformio'n dda o ran helpu i leihau'r risgiau hyn.

- O ran meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau, dim ond 37% o ymatebwyr a oedd yn teimlo ei bod yn hawdd ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn y trafodaethau cyn ymgeisio.

- Roedd ymatebwyr i'r arolwg hefyd yn nodi bod rhywfaint o botensial i wella eglurdeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda rhai staff awdurdodau cynllunio lleol yn nodi nad yw bob amser yn glir pa mor arwyddocaol yw'r materion sy'n cael eu codi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

- Roedd 42% o ymatebwyr o'r farn nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni terfynau amser statudol a/neu derfynau amser y cytunwyd arnynt ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau. Mae data sy'n cael ei gasglu ar wahân gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag amseroldeb yn dangos darlun mwy cadarnhaol, gyda dros 90% o ymatebion yn cael eu darparu o fewn y terfynau amser statudol.

### 2.1 Crynodeb o ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru

- Dros y 12 mis diwethaf mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi nifer o fesurau ar waith a ddylai helpu wrth fynd i'r afael â'r pryderon a leisiwyd yn rhan o'r arolwg hwn. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ar gyfer staff i wella cysondeb ein cyngor, cyflwyno categorïau ymateb i wella eglurdeb ein cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â'r broses o ofyn i estyn terfynau amser.

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi dechrau prosiect gwella ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol, a dylai hyn helpu i nodi unrhyw gamau pellach mae eu hangen ar gyfer gwella.

- O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno gwasanaeth cynghori dewisol ar gynllunio. Bydd hyn yn sicrhau bod datblygwyr yn cael mynediad at wasanaeth cyn ymgeisio helaethach. Yn hyn o beth, dylai'r gwasanaeth cynghori dewisol roi sylw i rai o'r pryderon a leisiwyd ynglŷn ag ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yng nghamau cynharach y broses gynllunio.

# 3. Crynodeb o ganfyddiadau allweddol – Cynllunio Strategol

- Dywedodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr (90%) fod ganddynt lefel uchel o hyder yn y cyngor maent yn ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio strategol. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y broses cynllunio, ac yn darparu cyngor ynglŷn â chynllunio strategol i awdurdodau lleol sy'n effeithiol, yn uchel ei barch ac yn hawdd ei ddefnyddio.

- Ar y cyfan, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu'n effeithiol ynglŷn â materion cynllunio strategol, ac mae ymatebwyr yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael dylanwad gweithredol a chadarnhaol ar elfennau allweddol o'r broses gynllunio. Roedd dros 80% yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at y broses gynllunio.

- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd yn cytuno bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn hawdd deall y rhyngweithio rhwng effeithiau amgylcheddol posibl. Roedd ymatebwyr hefyd yn gadarnhaol ynglŷn ag eglurdeb a thryloywder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Ar y cyfan, canfuwyd bod ymwybyddiaeth o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn isel, ac o ganlyniad, mae'n bosibl y bu diffyg ymwybyddiaeth ymhlith ymatebwyr ynglŷn â lefel y gwasanaeth y gallant ei disgwyl gan Gyfoeth Naturiol Cymru, neu ba wybodaeth mae ei hangen ar Gyfoeth Naturiol Cymru oddi wrth yr awdurdod lleol i lywio'r cyngor hwn.

- Roedd y prif bryderon a leisiwyd yn ymwneud â chysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws meysydd testun ac amseroldeb y cyngor hwnnw. Roedd cyngor ynglyn â rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir hefyd yn cael ei nodi gan un ymatebwr o bob tri yn faes lle y gellid gwneud rhai gwelliannau.

## 3.1 Crynodeb o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio darparu eglurdeb gwell am y gwasanaeth mae'n ei ddarparu ynglŷn â chynlluniau strategol trwy lunio rhestr wirio ar gyfer ymdrin â'r mathau hyn o gynlluniau. Byddwn hefyd yn ceisio amlinellu ein rolau mewn perthynas ag asesiadau amgylcheddol strategol (AASau) ac asesiad rheoliadau cynefinoedd (ArhCau) yn fanylach.

Mae'r brif broblem a godwyd yn yr arolwg cynllunio strategol yn ymwneud ag amseroldeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw derfynau amser statudol sydd wedi cael eu colli ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau cynllunio strategol. Rydym yn bwriadu trafod y mater hwn ymhellach â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. Ar ôl i ni gadarnhau union natur y broblem, byddwn yn rhoi'r sylw priodol iddi.

# 4. Cefndir yr astudiaeth

Yn 2015, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gomisiynu Land Use Consultants i gynnal asesiad o effeithiolrwydd cyngor Cyfoeth Naturiol ynglŷn â chynllunio datblygiad. Dwy ran oedd i'r astudiaeth. Roedd y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar ddatblygu arolwg boddhad cwsmeriaid a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Chwefror 2016. Yn rhan o hwn, gofynnwyd i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru am ei farn ynglŷn â gwasanaeth cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynllunio datblygiad.

Penderfynodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno ymateb sengl. O ganlyniad, cafodd yr arolwg cynllunio strategol ymateb gan 15 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, a chafwyd 19 ymateb ar gyfer yr arolwg cynllunio datblygiad. Er bod cyfanswm yr ymatebion yn fach, ymatebodd y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol Cymru.

Yn ogystal â'r arolwg, cynhaliodd Land Use Consultants asesiad manwl o sampl fach o gyngor Cyfoeth Naturiol ynglyn â gwaith achosion. Nod y gwaith hwn oedd asesu'r effaith mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i chael ar ganlyniadau'r broses gynllunio. Cafodd yr asesiad hwn ei ategu â chyfweliadau â staff awdurdodau cynllunio lleol a staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg, sy'n cael eu hategu â dyfyniadau o'r cyfweliadau â staff awdurdodau cynllunio lleol.

## 4.1 Diffinio effeithiolrwydd

Nod y gwaith a gynhaliwyd gan Land Use Consultants oedd datblygu dangosydd i fesur "effeithiolrwydd" cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddylanwadu ar ganlyniadau prosesau rheoli datblygiad.  At ddibenion yr arolwg, diffiniwyd effeithiolrwydd fel

"gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddylanwadu ar ganlyniadau prosesau cynllunio datblygiad, yn unol â'i amcan i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy".

Gofynnwyd i staff awdurdodau cynllunio lleol am eu safbwyntiau ynglŷn â lefel yr effaith roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei chael ar eu penderfyniadau. Gan fod nifer o wahanol ffactorau y mae'n rhaid i awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth wneud eu penderfyniadau, cafodd cwestiynau am effaith ein cyngor eu hategu ag amrediad o gwestiynau am allu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddylanwadu.

Bydd y gallu hwn i ddylanwadu'n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, megis ansawdd ac eglurdeb ein cyngor ac yn ystod pa gam mae'r cyngor yn cael ei ddarparu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi nifer o egwyddorion ar gyfer ymgysylltiad effeithiol, sy'n cael eu hamlinellu yn "Cynllunio Datblygiad: Ein Datganiad Gwasanaeth ar gyfer Cyflawni". Felly, roedd ar arolygon cwsmeriaid hefyd yn gofyn i staff awdurdodau cynllunio lleol am eu barn ynglŷn â'r graddau y credant ein bod yn gweithredu'r egwyddorion hyn yn ein gwaith. Y rhagosodiad y tu ôl i hyn yw bod gweithredu'r egwyddorion a gynigir yn y Datganiad Gwasanaeth yn ofyniad er mwyn dylanwadu ar ganlyniadau cynllunio.

Mae'r safonau gwasanaeth yn cynnwys yr egwyddorion canlynol ar gyfer gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu â gwaith rheoli datblygiad:

- **Ymgysylltiad cynnar** - ceisio cyfleoedd i ymgysylltu â datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yn ystod y cam cyn ymgeisio, mewn modd gweithredol, er mwyn sicrhau bod lleoliad, trefn a dyluniad y datblygiad yn cael eu llywio gan gyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd ar gyfer gwella'r amgylchedd, ac o ganlyniad yn lleihau oedi drud yn ystod camau diweddarach proses y cais cynllunio.

- **Defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg** - canolbwyntio ein gwaith ar gynigion sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, trwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg er mwyn canolbwyntio ein hadnoddau ar y cynigion hynny sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol;

- **Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau** – nodi a hyrwyddo cyfleoedd i amddiffyn a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys ymgorffori nodweddion treftadaeth naturiol wrth ddylunio datblygiadau arfaethedig, er mwyn cyflawni canlyniadau lle mae pob agwedd ar y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd ar ei hennill.

- **Cyngor clir** – sicrhau bod ein cyngor yn wrthrychol, yn gyson, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn gymesur, ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau, ein cyfrifoldebau a'n diben.

- **Tryloywder** – sicrhau ein bod yn dryloyw ac yn atebol wrth inni ddarparu cyngor.

- **Gweithio ar draws ffiniau** – gweithio gyda sefydliadau perthnasol eraill lle mae prosiectau datblygu'n croesi ffiniau cenedlaethol.

- **Ymateb o fewn terfynau amser** – sicrhau bod y cyngor rydym yn ei ddarparu'n cael ei gyflwyno o fewn terfynau amser y cytunir arnynt neu derfynau amser statudol.

Mae rhestr debyg yn bodoli ar gyfer ymgysylltiad Cyfoeth Naturiol Cymru â chynllunio strategol, ac mae'r canlyniadau ym mhennod 5 a 6 wedi cael eu trefnu o gwmpas yr egwyddorion hyn, gyda'r nod o gael dealltwriaeth well o lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud yn dda a lle mae'n bosibl bod angen gwella.

### 4.2 Cyfyngiadau i'r gwaith

Gan mai dyma'r tro cyntaf i'r arolwg gael ei gynnal, bwriad y canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad crynhoi hwn yw darparu sylfaen ar gyfer y gwaith. Er y bu cyfradd ymateb dda gan awdurdodau cynllunio lleol, penderfynodd llawer roi ymateb sengl ar gyfer pob awdurdod, a arweiniodd at grŵp arolwg cymharol fach. Mae angen ystyried hyn wrth ddehongli canlyniadau'r arolwg hwn, ac enwedig wrth wneud cymariaethau rhwng canfyddiadau'r arolwg eleni a'r rhai a fydd yn cael eu cynnal ym mlynyddoedd y dyfodol.

Hyd yn oed gyda grŵp arolwg bach dylai fod yn bosibl canfod tueddiadau cyffredin, ond mae'n bosibl bod newidiadau manylach (e.e. gostyngiad neu gynnydd o 10% mewn boddhad cwsmeriaid) yn ymddangos yn fwy arwyddocaol nag y maent, a gallai hyn fod o ganlyniad i nifer fach yn unig o ymatebwyr yn rhoi ateb gwahanol.

Ar sail adborth a gafwyd yn ystod yr arolwg, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried a ellir mireinio hyd yr arolwg pan fydd yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol. Ni effeithir ar gwestiynau sy'n cael eu defnyddio i asesu dangosyddion effeithiolrwydd.

Gan na roddwyd y cyfle i roi  sylwadau ond ar gyfer nifer fach o gwestiynau, roedd y cyfleoedd roedd yr arolwg yn eu cynnig ar gyfer rhoi sylwadau ychwanegol yn gyfyngedig. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd dehongli rhai o'r ymatebion a gafwyd, neu i nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Byddwn yn ceisio datrys y mater hwn mewn fersiynau o'r arolwg a gynhelir yn y dyfodol.

Yn olaf, er bod y ddau arolwg a gynhaliwyd yn 2015-16 yn canolbwyntio ar staff awdurdodau cynllunio lleol, rydym yn bwriadu ehangu hyn ym mlynyddoedd y dyfodol er mwyn cynnwys adborth gan ddatblygwyr hefyd.

# 5. Canfyddiadau Arolwg Rheoli Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru


Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg rheoli datblygiad, a oedd yn gofyn cwestiynau am y gwasanaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrth ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio. Roedd yr adborth a gafwyd yn rhan o'r arolwg hwn ar y cyfan yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud bod ganddynt lefel uchel o hyder yn y cyngor a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, a bod y cyngor hwn wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed ganddynt.

Mae'r arolwg hefyd yn amlygu nifer o feysydd y gellid eu gwella, ac felly, mae pob adran isod hefyd yn amlinellu sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a godwyd.

## 5.1 Rheoli datblygiad – Safbwyntiau cyffredinol

### 5.1.1 Canlyniadau'r arolwg

Roedd rhan gyntaf yr arolwg rheoli datblygiad yn gofyn nifer o gwestiynau cyffredinol am ganfyddiad yr awdurdodau lleol o'r gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei ddarparu ynglŷn â rheoli datblygiad.




Fel y dangosir gan y ffigur uchod, daeth nifer o negeseuon cadarnhaol i'r amlwg o'r grŵp hwn o gwestiynau. Nododd bron 80% o ymatebwyr, er enghraifft, fod ganddynt hyder yn y cyngor maent yn ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae nifer yr ymatebion negyddol i'r grŵp hwn o gwestiynau'n gymharol isel, gyda'r cwestiwn am y lefel o sicrwydd mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ei ddarparu ar gyfer datblygwyr yn derbyn y lefel uchaf o adborth negyddol. Mae'r ffigur hwn o 15% yn dal i gael ei ystyried yn gymharol isel.

### 5.1.2 Nodi meysydd i'w gwella – Safbwyntiau cyffredinol ynglŷn â Chyfoeth Naturiol Cymru

Er mwyn nodi'r meysydd hynny lle mae’n bosibl gwella'r gwasanaeth, rhoddwyd sgôr rifiadol i bob ateb i'r arolwg. Roedd y rhain rhwng 5 ar gyfer cytuno'r gryf ac 1 ar gyfer anghytuno'n gryf. Yn dilyn hyn, cafodd sgôr gyfartalog ei chyfrifo ar gyfer pob cwestiwn. Wedyn rhoddwyd y cwestiynau yn un o'r categorïau canlynol ar sail y sgoriau a dderbyniwyd:

- Sgoriau o 3.5 neu'n uwch – dyma'r cwestiynau lle mae'r adborth yn nodi bod gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei raddio’n uchel gan ein cwsmeriaid. Dangosir y cwestiynau hyn mewn gwyrdd yn y tabl isod, ac oherwydd y sgôr uchel a gafwyd, nid ydym yn ystyried bod angen gwella'r gwasanaeth yn y meysydd hyn ar hyn o bryd.
- Sgoriau o dan 3.5 – mae hyn yn nodi rhai meysydd a allai elwa ar sylw pellach.

Gellid dadlau bod sgoriau rhwng 3 a 3.5 yn dal i adlewyrchu barn gyffredinol gadarnhaol ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gan na ellir cyrraedd y cyfartaledd cymharol uchel hwn ond bod y rhan fwyaf o ymatebion naill ai'n gadarnhaol neu'n amwys. Felly, mae'r dadansoddiad rhifiadol a'r trothwy o 3.5 yn cael eu defnyddio yma'n fan cychwyn ar gyfer nodi meysydd i'w gwella. Mae ffactorau eraill, megis adborth manylach a gafwyd yn

rhan o'r arolwg a chyfanswm yr ymatebion anfodlon wedi cael eu defnyddio i fireinio hyn ymhellach, ac i nodi'r prif feysydd lle mae'n bosibl bod angen gwelliannau.

Mae sgoriau o 3.5 ac yn uwch wedi cael eu hamlygu â lliw gwyrdd yn y tabl isod. Pan fydd maes i'w wella wedi cael ei nodi mae hyn wedi cael ei amlygu â lliw oren.

| **Rheoli datblygiad – safbwyntiau cyffredinol ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
|---|---|
| 1: Mae gennyf hyder yn y cyngor rwy'n ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru | 3.68 |
| 2: Mae ymatebion ymgynghori Cyfoeth Naturiol Cymru yn gymesur, yn hawdd eu deall, yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi eu rhesymu'n glir | 3.63 |
| 3: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried manteision datblygiadau mewn modd pwyllog, ac yn cyfrannu at atebion cynaliadwy | 3.33 |
| 4: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio darparu cymaint o sicrwydd ag y bo modd ar gyfer datblygwyr | 3.38 |

Mae'r dadansoddiad rhifiadol o'r set gyntaf o gwestiynau yn yr arolwg rheoli datblygiad yn dangos y gallai cwestiynau 3 a 4 elwa ar sylw pellach. Er mai cwestiwn 3 (Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried manteision datblygiadau mewn modd pwyllog, ac yn cyfrannu at atebion cynaliadwy) a gafodd y sgôr gyffredinol isaf yn y set hon o gwestiynau, mae hyn yn rhannol o ganlyniad i nifer uwch yr ymatebion niwtral. O ystyried gwahanol rolau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau cynllunio lleol, lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol, ac mae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried hyn ochr yn ochr ag amrediad o ffactorau eraill, ni ystyrir bod y nifer cymharol uchel o ymatebion niwtral yn broblem.

#### 5.1.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Meysydd i'w Gwella

Mae'r brif broblem a godwyd yn y rhan hon o'r arolwg yn ymwneud â'r lefel o sicrwydd mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei darparu ar gyfer datblygwyr. Gan fod Cyfoeth Naturiol yn gynghorydd ym mhroses y cais cynllunio, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau, mae lefel y sicrwydd rydym yn gallu ei darparu ar gyfer datblygwyr yn gyfyngedig. Er bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn ystyried pob agwedd faterol ar gynllun, mae ein harbenigedd yn ymwneud â buddiannau amgylcheddol ac adnoddau naturiol.


Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod manteision yn gysylltiedig â darparu cyngor ar gyfer datblygwyr yn gynnar yn y broses gynllunio. Am y rheswm hwn rydym wedi dechrau gwaith i estyn y gwasanaeth cyn ymgeisio sydd ar gael i ddatblygwyr ar hyn o bryd, trwy gyflwyno gwasanaeth cynghori dewisol ar gynllunio, wedi'i ffurfioli. Fel rhan o'r gwasanaeth hwn rydym yn bwriadu darparu barn gychwynnol am ddim i ddatblygwyr ynglŷn â'u datblygiad. Yn ogystal bydd gwasanaethau eraill y gall datblygwyr ofyn amdanynt am ffi. Ein bwriad yw dechrau gweithredu'r gwasanaeth hwn o fis Ebrill 2017 ymlaen.

Yn rhan o'r gwasanaeth hwn, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad gwasanaeth newydd a fydd yn rhoi rhagor o eglurdeb i ddatblygwyr ynglŷn â lefel y gwasanaeth dewisol a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

### 5.2 Rheoli datblygiad – Gwerth a ychwanegwyd gan gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

#### 5.2.1 Canlyniadau'r arolwg

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu safbwyntiau ynglŷn ag a ydynt yn credu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at y broses gynllunio. Roedd ymatebion i'r set hon o gwestiynau'n arbennig o gadarnhaol, gyda thros 80% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at y broses o benderfynu ceisiadau cynllunio. At ei gilydd, mae nifer yr ymatebion negyddol i'r set hon o gwestiynau'n gymharol isel, fel y mae nifer yr ymatebion niwtral. Gellid ystyried hyn yn arwydd bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi cyfraniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyfan.




## 5.2.2 Nodi meysydd i'w gwella – gwerth a ychwanegwyd gan gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r dadansoddiad rhifiadol isod yn dangos yr adborth sy'n gadarnhaol yn bennaf a gafwyd ar gyfer y set hon o gwestiynau. Yr atebion i gwestiynau 6 ac 8 a gafodd y sgoriau uchaf yn yr arolwg cynllunio datblygiad. Gan fod y set hon o gwestiynau'n bwriadu nodi a yw cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwahaniaeth, mae'r canlyniadau cadarnhaol hyn yn arbennig o galonogol. Yn ôl pob golwg, ar sail y canfyddiadau hyn nid oes unrhyw feysydd amlwg o fewn y set hon o gwestiynau lle mae angen gwella yn y tymor byr.

| **Rheoli datblygiad – safbwyntiau ynglŷn â gwerth a ychwanegwyd** | |
|---|---|
| 5: Ar y cyfan rwy'n cytuno â'r argymhellion mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwneud | 3.78 |
| 6: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn ffactor hanfodol mewn ceisiadau rwyf wedi ymdrin â nhw yn y 12 mis diwethaf | 4.05 |
| 7: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn werthfawr wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â pha amodau a ddylai gael eu hatodi i ganiatâd cynllunio | 3.79 |
| 8: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at y gwaith o benderfynu ceisiadau cynllunio | 4.11 |

#### 5.2.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Meysydd i'w Gwella


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r adborth cadarnhaol mae wedi'i dderbyn ynglŷn â'r set hon o gwestiynau. Pan fydd yr arolwg yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol rydym yn bwriadu ychwanegu rhai cwestiynau ychwanegol at y rhan hon, â'r nod o ddeall yn well lle mae ein cwsmeriaid yn credu ein bod yn ychwanegu'r gwerth mwyaf. Mae'r math hwn o wybodaeth fanylach ar goll o'r arolwg ar hyn o bryd, a phe bai'n cael ei ddarparu, gallai helpu i lywio lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ei ymdrechion yn y dyfodol.

### 5.3 Rheoli datblygiad – ymgysylltiad cynnar

#### 5.3.1 Canlyniadau'r arolwg

Yn ei ddatganiad gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi y bydd yn "ceisio cyfleoedd i ymgysylltu â datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yn ystod y cam cyn ymgeisio, mewn modd gweithredol, er mwyn sicrhau bod lleoliad, trefn a dyluniad y datblygiad yn cael eu llywio gan gyfyngiadau amgylcheddol, a chyfleoedd ar gyfer gwella'r amgylchedd"


Yn yr adran o'r arolwg am ymgysylltiad cynnar, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ynglŷn â pha mor hawdd yw ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar yn y broses gynllunio, a pha mor ddefnyddiol yw cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cam hwn. Wrth ddehongli'r canlyniadau hyn, dylid nodi mai nifer cymharol fach yn unig a ddywedodd eu bod yn ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd yn y cam cyn ymgeisio, fel y dangosir yn y diagram isod. Mae'n bosibl bod hyn esbonio'n rhannol y nifer cymharol uchel o ymatebion niwtral i'r cwestiwn hwn.




Fodd bynnag, er bod rhai ymatebwyr yn nodi eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir yn ystod y cam hwn, ac eraill yn niwtral, fe wnaeth yr adborth nodi i nifer o ymatebwyr ddweud eu bod yn anfodlon ar yr agwedd hon ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd 15% o ymatebwyr nad oeddent yn credu ei bod yn hawdd ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cam cyn ymgeisio, ac roedd 25% o'r farn nad oedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru am y wybodaeth yr oedd ei hangen i ategu cais cynllunio

bob amser yn glir. Er bod y ffigurau hyn yn dal yn gymharol isel, mae hyn yn awgrymu y gellid gwneud gwelliannau yn y maes hwn.




### 5.3.2 Nodi meysydd i'w wella – Ymgysylltiad cynnar

Roedd y dadansoddiad rhifiadol yn dangos bod y sgôr gyfartalog ar gyfer pob cwestiwn ond un o dan y trothwy o 3.5. Mae'n bosibl bod y sgôr uwch a roddwyd i gwestiwn 12 o ganlyniad i'r ffordd y cafodd y cwestiwn ei eirio. Gan na nodwyd bod y cwestiwn hwn yn benodol am ymgysylltiad cynnar, mae'n bosibl bod ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yng nghyd-destun gwasanaeth cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn hytrach na'r cam cyn ymgeisio. Felly, pan fydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn y dyfodol bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn aralleirio'r cwestiwn hwn er mwyn osgoi'r risg o gamddealltwriaeth.

| **Ymgysylltiad cynnar** | |
|---|---|
| 9: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor clir am y wybodaeth amgylcheddol mae ei hangen i ategu cais cynllunio | 3.21 |
| 10: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i nodi problemau a fydd yn rhoi stop ar y prosiect yn gynnar, ac mae'n glir pan fydd yn debygol o argymell gwrthod cais | 3.26 |
| 11: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cam cyn ymgeisio'n nodi cyfleoedd i wella sy'n briodol ar gyfer y datblygiad arfaethedig | 3.42 |
| 12: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i sicrhau bod yr awdurdod cynllunio yn ymwybodol o unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd/adnoddau naturiol | 4.05 |
| 13: Mae'n hawdd ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod trafodaethau cyn ymgeisio | 3.32 |

#### 5.3.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella

Fel y nodwyd yn yr adran barn gyffredinol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi'r angen i wella ei fewnbwn yn ystod y cam cyn ymgeisio. Felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cyflwyno gwasanaeth cynghori dewisol ar gynllunio, wedi'i ffurfioli, a fydd yn darparu barn gychwynnol am ddim i ddatblygwyr ynglyn â'u datblygiad, yn ogystal â gwasanaethau ychwanegol (y codir ffi amdanynt). Byddwn hefyd yn datblygu datganiad gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth y codir ffi amdano, a fydd yn rhoi mwy o eglurdeb i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol ynglŷn â lefel y gwasanaeth y gellir ei disgwyl gan Gyfoeth Naturiol Cymru.


### 5.4 Rheoli datblygiad – Dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau

#### 5.4.1 Canlyniadau'r arolwg

Yn ei ddatganiad gwasanaeth, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n ceisio "nodi a hyrwyddo cyfleoedd i amddiffyn a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys ymgorffori nodweddion treftadaeth naturiol wrth ddylunio datblygiad arfaethedig, er mwyn cyflawni canlyniadau lle mae pob agwedd ar y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd ar ei hennill"

Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr i ddarganfod a oedd ymatebwyr yn teimlo bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau yn gyffredinol, a pha mor ddefnyddiol yw'r cyngor hwn. Roedd dros 60% yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir pan fydd ganddo bryderon am gynnig cynllunio penodol, a thros 70% yn cytuno y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ymarferol er mwyn osgoi neu leihau effeithiau negyddol.

Hefyd roedd nifer fach o ymatebwyr (20%) nad oeddent yn cytuno â'r datganiad bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir pan fydd ganddo bryderon am gynnig datblygu. Mae hyn yn dangos y gellid gwneud gwelliannau i sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yn glir yn y ffordd mae'n cyfathrebu pryderon.




### 5.4.2 Nodi meysydd i'w gwella – defnyddio dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau

Mae'r dadansoddiad rhifiadol isod yn dangos bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag osgoi a lleihau effeithiau andwyol ar adnoddau naturiol yn cael ei dderbyn yn dda, ar y cyfan. Er i'r cwestiwn ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth dderbyn sgôr o dan 3.5, mae'r wybodaeth fanylach uchod yn dangos bod y sgôr hon o ganlyniad i'r nifer cymharol uchel o atebion niwtral, yn hytrach nag adborth negyddol. Nodwyd ei bod yn bosibl y byddai'r ddau gwestiwn sy'n weddill ynglŷn â'r ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfathrebu ei bryderon yn elwa ar waith bellach.

Roedd adborth manylach a roddwyd ynglŷn â'r cwestiwn hwn yn nodi nad oedd yn glir, ar adegau, pa lefel o arwyddocâd y dylid ei chysylltu â'r problemau mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu codi.

| **Dull sy'n seiliedig ar ddatrys problemau** | |
|---|---|
| 14: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor ymarferol sy'n helpu i osgoi a/neu leihau effeithiau andwyol ar adnoddau naturiol | 3.74 |
| 15: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid – gan gynnwys awdurdodau cynllunio a datblygwyr – i wella canlyniadau ar gyfer pobl, yr amgylchedd a'r economi. | 3.47 |
| 16: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir pan fydd ganddo bryderon ynglŷn â chynllun arfaethedig y gellir eu goresgyn (e.e. trwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol) | 3.42 |
| 17: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir pan fydd yn ystyried nad yw cynllun yn dderbyniol oherwydd y risgiau/effeithiau amgylcheddol gan y datblygiad arfaethedig | 3.47 |

### 5.4.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau gweithredu ar gyfer gwella


Ers cynnal yr arolwg mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu ei gategorïau ymateb. Disgwylir y bydd hyn yn mynd i'r afael a'r rhan fwyaf o'r pryderon a leisiwyd ynglyn â chwestiynau 16 a 17 uchod. Yn benodol bydd y categorïau ymateb diwygiedig yn nodi'n glir pan ellir rhoi sylw i bryderon trwy: ddarparu diwygiadau i'r cynllun, trwy atodi amodau priodol i'r caniatâd cynllunio, neu drwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol sy'n dangos bod unrhyw effeithiau'n dderbyniol. Pan fydd yr arolwg yn cael ei gynnal yn y dyfodol bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro a yw cyflwyno categorïau ymateb diwygiedig yn cael yr effaith a geisir.

## 5.5 Rheoli datblygiad – eglurder cyngor

### 5.5.1 Canlyniadau'r arolwg

Yn ei ddatganiad gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud y bydd yn ceisio sicrhau bod ei gyngor “yn wrthrychol, yn gyson, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn gymesur, ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau, ein cyfrifoldebau a'n diben”

Mae eglurdeb cyngor yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr am y mater hwn, yn enwedig pa mor hawdd yw deall y cyngor ac a ystyrir bod y cyngor yn wrthrychol.




Mae'r ymatebion i'r arolwg hwn yn nodi nifer o negeseuon cadarnhaol ynglŷn ag eglurdeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae nifer yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r datganiadau yn yr adran hon yn isel ar y cyfan, ac ni chafodd yr un o'r cwestiynau fwy na 15% o ymatebion o'r fath. Dywedodd bron 70% o ymatebwyr fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu digon o wybodaeth iddynt wneud penderfyniad ar sail rheswm, a dywedodd dros 60% eu bod yn credu bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson ar draws camau gwahanol cynllun.

### 5.5.2 Nodi meysydd i'w gwella – eglurdeb cyngor

Er bod y canlyniadau manwl yn gadarnhaol ar y cyfan, mae canlyniadau'r dadansoddiad rhifiadol yn nodi nifer o feysydd lle y gellid gwneud gwelliannau. Er na fu llawer o adborth negyddol ynglŷn â'r cwestiwn hwn, mae rhai o'r sgoriau'n gymharol isel oherwydd y nifer uchel o ymatebion niwtral a gafwyd.

Er nad yw ymatebion niwtral o reidrwydd yn nodi bod problem, gellid dadlau, er mwyn i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn effeithiol, bod eglurdeb ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbennig o bwysig. Mae'n bosibl bod atebion niwtral i'r cwestiynau hyn yn nodi bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn llai eglur ar adegau.

| **Rheoli datblygiad – eglurder cyngor** | |
|---|---|
| 18: Mae categorïau ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn hawdd eu deall | 3.26 |
| 19: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyson yn ystod camau gwahanol y cynllun* | 3.58 |
| 20: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yn wrthrychol ac yn seiliedig ar dystiolaeth | 3.47 |
| 21: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu digon o wybodaeth er mwyn imi wneud penderfyniad/argymhelliad ar sail rheswm | 3.73 |
| 22: Mae cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn hawdd ei ddeall | 3.05 |

### 5.5.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau gweithredu ar gyfer gwella

Ers cynnal ar arolwg mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi ymdrech sylweddol i wella eglurdeb ei gyngor. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno categorïau ymateb, a ddylai helpu i leihau unrhyw amwysedd ynglŷn â sut y dylid dehongli cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal rydym hefyd yn datblygu cyfres o nodiadau cyfarwyddyd gweithredol, er mwyn sicrhau bod ein cyngor yn gyson ac yn dryloyw.


Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi dechrau prosiect gwella ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol, a fydd, ymhlith pethau eraill, yn ystyried eglurdeb a thryloywder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bosibl y bydd camau pellach ar gyfer gwella'n cael eu nodi yn rhan o'r gwaith hwn.

## 5.6 Rheoli datblygiad – tryloywder

### 5.6.1 Canlyniadau'r arolwg

Yn ei ddatganiad gwasanaeth dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd yn "sicrhau ei fod yn dryloyw ac yn atebol wrth ddarparu cyngor". Yn ystod yr arolwg, gofynnwyd cwestiynau am wahanol agweddau ar dryloywder, gan gynnwys a oedd ymatebwyr yn credu y byddai'r cyngor yn goroesi proses graffu, ac a oeddent yn credu ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

Ar y cyfan roedd adborth ynglŷn â thryloywder cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gadarnhaol, gyda dros 60% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y rhesymau dros benderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru wedi eu hamlinellu mewn modd rhesymegol. Roedd dros 70% o ymatebwyr hefyd yn hyderus y byddent yn ceisio eglurdeb pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru pe bai angen.




### 5.6.2 Meysydd i'w gwella – tryloywder cyngor

Mae'r dadansoddiad rhifiadol isod yn dangos i Gyfoeth Naturiol Cymru gael sgôr dda am ddau o'r cwestiynau, ond roedd y sgôr am ddau o'r cwestiynau ychydig o dan y trothwy o 3.5.

Gan fod y sgôr am gwestiwn 25 wedi'i pheri gan nifer cymharol uchel o ymatebion niwtral, yn hytrach nag adborth negyddol, ac na chafwyd unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â sut y gellid gwella'r sgôr am y cwestiwn hwn, ni nodwyd bod angen gwaith pellach ar y cwestiwn ar hyd o bryd.

Er bod bron 60% o ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad tryloyw a hygyrch, roedd hefyd rhywfaint o anghytundeb ynglŷn â'r cwestiwn hwn, ac arweiniodd hyn at sgôr gyffredinol is.

| **Tryloywder** | |
|---|---|
| 23: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad tryloyw a hygyrch | 3.47 |
| 24: Rwy'n hyderus y bydd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthsefyll proses graffu | 3.47 |
| 25: Rwy'n hyderus fy mod yn gallu ceisio eglurdeb ynglŷn ag ymatebion ymgynghori Cyfoeth Naturiol Cymru yn hawdd | 3.79 |
| 26: Mae'r rhesymau dros benderfyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar geisiadau cynllunio wedi eu hamlinellu mewn modd rhesymegol ac yn cael eu hategu gan dystiolaeth | 3.68 |


5.6.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru - camau gweithredu ar gyfer gwella

Roedd yr adborth a gafwyd yn rhan o'r arolwg hwn yn dangos bod o leiaf rhai o'r problemau yr adroddwyd amdanynt ynglŷn â hygyrchedd y sefydliad wedi digwydd yn fuan ar ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu. Ers hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi rheolwyr achos ar waith y gallai'r awdurdod cynllunio lleol gysylltu â nhw'n uniongyrchol. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y drefn newydd hon wedi gweithio'n dda iddynt.

## 5.7 Rheoli datblygiad – amseroedd ymateb

### 5.7.1 Canlyniadau'r arolwg

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn adrodd am amseroldeb ei ymatebion yn rheolaidd, ac felly roedd y cwestiynau yn yr arolwg hwn yn canolbwyntio ar amseroldeb canfyddedig, h.y. a yw ymatebwyr yn credu bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn ddigon cyflym. Er bod dros 50% o ymatebwyr yn cytuno y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn gyflym mewn achosion lle rhoddwyd gwybodaeth annigonol, neu lle roedd angen estyniad, dim ond 45% sydd o'r farn bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb o fewn yr amserlenni statudol a/neu amserlenni y cytunwyd arnynt.




### 5.7.2 Nodi meysydd i'w gwella

Roedd y dadansoddiad rhifiadol a gynhaliwyd ar y canlyniadau'n nodi bod dau faes posibl i'w gwella mewn perthynas ag amserlenni. Roedd y problemau yr adroddwyd amdanynt yn yr arolwg yn bennaf yn ymwneud â cheisiadau gan gyfoeth Naturiol Cymru i estyn terfynau amser. Roedd rhywfaint o'r adborth hwn yn nodi bod rhai ceisiadau am estyniadau'n dod yn gymharol hwyr, ac ar adegau, bu rhywfaint o gamgyfathrebu ynglŷn ag a oedd estyniad wedi cael ei gytuno neu beidio.

| Amserlenni (canfyddedig) | |
|---|---|
| 27: Pan na fydd datblygwyr wedi darparu digon o wybodaeth, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i egluro pa wybodaeth ychwanegol mae ei hangen | 3.68 |
| 28: Pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am estyniad i amserlen statudol/amserlen y cytunwyd arni, bydd yn gofyn am hwn yn gynnar | 3.38 |
| 29: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bodloni terfynau amser statudol a/neu derfynau amser y cytunwyd arnynt ar gyfer ymatebion i ymgynghoriadau | 3.05 |

### 5.7.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – camau ar gyfer gwella

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw cofnodion ar wahân ynglyn ag amseroldeb ei ymatebion, sy'n dangos bod 90% o ymatebion yn cael eu darparu o fewn terfynau amser statudol neu derfynau amser y cytunwyd arnynt, ac yn aml mae estyniadau i amserlenni'n cael eu cyfyngu i ychydig o ddyddiau yn unig. Felly mae anghytundeb i'w weld rhwng canfyddiad cwsmeriaid ynglŷn â'n hymatebion ni a'r data rydym yn ei gadw.

Mae'n bosibl bod hyn yn rhannol am fod gan ein cwsmeriaid ddisgwyliadau uwch ynglŷn â'r amseroedd gweithredu nag rydym yn gallu eu cyflawni'n realistig. Mae ceisiadau am ailymgynghoriadau'n benodol yn aml yn dod ag amserlenni heriol.


Er mwyn mynd i'r afael â phroblem diffyg eglurder ynglŷn ag a yw estyniad wedi'i gytuno neu beidio, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi canllawiau ar waith i staff am y broses ar gyfer gofyn am estyniad. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i unrhyw estyniadau a geisir gael eu cytuno'n ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio perthnasol – dylai hyn helpu i leihau'r risg o gamgyfathrebu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau cynllunio lleol.

Yn 2016, ddechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynllun gwella ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol hefyd. Rhan o nod y prosiect hwn yw gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

## 5.8 Boddhad cwsmeriaid – boddhad cyffredinol

### 5.8.1 Canlyniadau'r arolwg

Gofynnwyd i ymatebwyr roi asesiad cyffredinol o'u boddhad ynghylch y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn ynglŷn â chynigion datblygu. Mae'r adborth a gafwyd yn dangos bod mwyafrif sylweddol naill ai'n fodlon (37%) neu rywfaint yn fodlon (42%) ar y gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu.




Pan oedd ymatebwyr yn llai bodlon roedd hyn yn gysylltiedig yn gryf ag amseriad ymatebion. Rhoddwyd yr atebion hyn yn ateb i gwestiwn ynglŷn â lle roedd ymatebwyr yn credu y gellid gwneud gwelliannau:

***Dyfyniadau allweddol o'r cyfweliadau:***

*"Yn ôl bob golwg mae adrannau gwahanol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i ymgynghoriadau am geisiadau cynllunio o fewn amserlenni gwahanol. Ar adegau mae hyn yn atal ymateb rhag cael ei anfon o Gyfoeth Naturiol Cymru."*

*"Ymatebion cyflymach. Cyngor clir a diamwys. Cysondeb rhwng gwahanol gyfundrefnau cydsyniol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru"*

*"Mae llawer o bwyslais i'w weld yn cael ei roi ar "amserlenni y cytunwyd arnynt", ac felly, pan fydd terfynau amser yn dynn (megis Cwmpasu Barn), yn aml rydym yn derbyn cais i estyn y terfyn amser yn gynnar yn y broses – yn hytrach na darparu ymateb cyflymach yn ddibynnol ar flaenoriaethau'r amserlen."*

*"Peidiwch â chanolbwyntio ar gyflymder a dechreuwch ganolbwyntio ar ansawdd yr ymateb yn lle. Byddai'n well gennyf gael ymateb o ansawdd uchel yn hwyr nag ymateb cyflym nad yw'n helpu neb ond i roi tic mewn blwch. Byddai rhywfaint o feddwl cydgysylltiedig yn dda, fel nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynegi pryderon am gynlluniau y mae adran arall o Gyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrannu at eu llunio. Byddai mynediad at swyddogion yn wych - mae canolfannau cyswllt, yn fy marn i, yn aneffeithiol ar gyfer gweithwyr cynllunio proffesiynol. Rhagor o weithio ar y cyd."*

Pan ofynnwyd am enghreifftiau penodol o lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n dda, ansawdd y cyngor oedd y thema fwyaf cyffredin.

***Dyfyniadau allweddol o'r cyfweliadau:***

*"Atebion da, manwl iawn gyda chyfiawnhad trwyadl."*


*"Ar y cyfan ceir ymatebion sy'n darparu cyngor cyson mewn modd amserol. Mae ymatebion yn trafod y rhan fwyaf o'r materion yn fanwl, sy'n bwysig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithredu ar ein rhan yn ddiweddar ynglyn â phroblemau llifogydd* [wedi'i olygu]*, ac mae swyddogion wedi ymateb yn gyflym, ac yn hapus i gwrdd a thrafod problemau, ac maent wedi eu hesbonio'r eglur. Mae'r cymorth mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi imi yn hyn o beth, a'i fodlonrwydd i adolygu gwybodaeth ar fyr rybudd a cheisio datrys problemau, wedi creu argraff fawr arnaf."*

*"Ar y cyfan mae'r cyngor yn wrthrychol, yn seiliedig ar ffeithiau, yn glir ac wedi'i strwythuro'n dda – mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn atebol ac yn hawdd mynd ato. Rydym yn teimlo bod gennym berthynas weithio dda â Chyfoeth Naturiol Cymru. Enghraifft dda* [wedi'i olygu].*Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod eu cymwynas wrth roi ymatebion manwl iawn."*

*"Byddant yn ymateb bob amser ac maent yn agored i drafodaeth/dadl."*

### 5.9 Boddhad ar wasanaethau yn ôl maes

Yn ogystal â chwestiynau cyffredinol am foddhad pobl ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynghylch gwasanaethau penodol. Mae'r adborth yn dangos bod lefelau o foddhad ar y cyfan yn uchel, ac yn cyfrif am dros




70% am bob metrig ond dau. (Yr angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr). Pan fydd hyn yn cael ei ystyried wrth ochr nifer yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod naill ai'n "fodlon" neu "rywfaint yn fodlon" ar wasanaeth cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru, mae hyn yn rhoi darlun cyffredinol da o'r ffordd mae gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn perfformio mewn perthynas â chyngor ynghylch rheoli datblygiad.


## 6. Canfyddiadau Arolwg Cynllunio Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg cynllunio strategol, a oedd yn gofyn cwestiynau am y gwasanaeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ddarparu ar gyfer cynlluniau strategol, megis cynlluniau datblygu lleol. Roedd yr adborth a gafwyd yn rhan o'r arolwg hwn ar y cyfan yn gadarnhaol, ac ni ddaeth ond ychydig o broblemau i'r amlwg o'r canfyddiadau. Lle bo'n briodol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi amlinellu ei ymateb i'r problemau hyn yn y bennod hon.

## 6.1 Cynllunio Datblygiad – Deall rôl a chyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru

### 6.1.1 Canlyniadau'r arolwg

Ar ddechrau'r arolwg gofynnwyd nifer o gwestiynau cyffredinol i'r ymatebwyr ynglyn â'u dealltwriaeth o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y system gynllunio. Nod y cwestiynau hyn oedd rhoi rhywfaint o gyd-destun i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer dehongli canlyniadau'r cwestiynau eraill.




Mae canfyddiadau'r set hon o gwestiynau'n nodi bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn glir ynglŷn â rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y system gynllunio. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru cryn dipyn yn is, gyda llai na 35% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn defnyddio'r safonau gwasanaeth yn sail ar gyfer ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

### 6.1.2 Nodi meysydd i'w gwella – deall rôl Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn ogystal â'r lefel isel o ymwybyddiaeth o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, mae canlyniadau'r dadansoddiad rhifiadol yn nodi i Gyfoeth Naturiol Cymru dderbyn sgôr gymharol isel mewn perthynas â pha mor agored a hygyrch yw'r sefydliad. Dywedodd nifer cymharol uchel o ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad hwn, ond roedd canran fach o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'r gryf (20%).

| **Cynllunio Strategol – deall rôl Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
|---|---|
| 1: Mae gennyf ddealltwriaeth glir o rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â datblygu cynlluniau strategol a chyfarwyddyd | 3.93 |
| 2: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad agored a hygyrch | 3.2 |
| 3: Rwy'n ymwybodol o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, ac rwy'n defnyddio'r rhain yn sail ar gyfer ymgysylltu â nhw | 3.08 |

### 6.1.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella

Er bod y set hon o gwestiynau'n cael ei defnyddio'n bennaf yn fesur rheoli ar gyfer atebion dilynol, y mae'n dangos bod ymwybyddiaeth o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol ar y cyfan yn isel.


Ar sail canlyniadau'r arolwg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi bod angen darparu rhagor o eglurdeb i awdurdodau cynllunio lleol, o ran y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynlluniau strategol. Ar gyfer rheoli datblygiad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio rhestr wirio y gallai awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio hefyd i'w helpu i benderfynu a ddylent ymgynghori â nhw. Rydym yn bwriadu rhoi rhestr wirio debyg ar waith i sicrhau rhagor o eglurdeb ynglŷn â pha wasanaeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddarparu.

Yn ogystal, byddwn yn diweddaru cynnwys ein gwefan i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

## 6.2 Cynllunio Strategol – Canfyddiadau ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

### 6.2.1 Canlyniadau'r arolwg

Gofynnwyd nifer o gwestiynau cyffredinol i'r ymatebwyr ynglŷn â'r gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru dros y 12 mis diwethaf.



Ar y cyfan roedd yr ymatebion i'r set hon o gwestiynau'n gadarnhaol. Roedd dros 85% o ymatebwyr yn
cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor awdurdodol ac effeithiol ynglŷn â materion amgylcheddol. Dywedodd dros 90% ohonynt fod ganddynt hyder yn y cyngor roeddent yn ei dderbyn. Dim ond un ateb negyddol a roddwyd yn y set gyflawn hon o gwestiynau, a chafodd dau gwestiwn (Cwestiynau 4 a 6) nifer cymharol uchel o ymatebion niwtral.

### 6.2.1 Nodi meysydd i'w gwella – Canfyddiadau ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru


Mae'r dadansoddiad isod yn dangos bod gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei dderbyn yn dda ar y cyfan, gyda hyder pobl yng nghyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbennig o uchel. Gan na chafwyd
ond un ateb negyddol i'r set gyflawn hon o gwestiynau, a chafodd pob cwestiwn sgôr gyfartalog yn uwch na 3.5, nid oedd y dadansoddiad hwn yn nodi unrhyw feysydd amlwg sydd angen sylw yn y tymor byr.

| **Cynllunio strategol – canfyddiadau ynglŷn â gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
|---|---|
| 4: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y broses cynllunio strategol | 3.73 |
| 5: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor awdurdodol ac effeithiol ynglŷn â materion amgylcheddol ac adnoddau naturiol | 3.93 |
| 6: Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio dull cymesur sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymdrin â materion adnoddau naturiol yn ystod y broses gynllunio | 3.73 |
| 7: Mae gennyf hyder yn y cyngor rwy'n ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru | 4 |

## 6.3 Cynllunio Strategol – Ansawdd Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru


### 6.3.1 Canlyniadau'r arolwg

Yn ei ddatganiad gwasanaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amlinellu ymroddiad i ddarparu'r dystiolaeth mae ei hangen ar awdurdodau lleol i lywio eu cynlluniau. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr am dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. At ddiben yr adroddiad hwn mae'r rhain wedi cael eu rhannu’n ddau grŵp ar wahân: cwestiynau mewn perthynas ag ansawdd ac amseroldeb tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, a chwestiynau am effaith ei dystiolaeth.




Mae'r set gyntaf o gwestiynau, a amlinellir uchod, yn dangos bod pobl yn hapus gyda'r dystiolaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar y cyfan. Dywedodd dros 90% o ymatebwyr eu bod naill ai'n cytuno'n neu'n cytuno'n gryf bod tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir, yn hawdd ei deall ac yn addas at ei diben arfaethedig. Er mai ychydig yn unig o adborth negyddol a gafwyd ynglŷn â'r set hon o gwestiynau, roedd nifer fach o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r pryderon a leisiwyd am amseroldeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr arolwg rheoli datblygiad.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau ynglŷn ag effaith tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler y diagram isod) hefyd yn dangos darlun sy'n bennaf yn gadarnhaol.  Dywedodd dros 80% o ymatebwyr eu bod o'r farn bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at eu cynllun neu bolisi. Dywedodd yr 20% sy'n weddill naill ai nad oedd y cwestiwn hwn yn berthnasol, neu nad oeddent yn gwybod. Cafwyd ymateb yr un mor gadarnhaol i ddatganiad am dystiolaeth Cyfoeth Naturiol yn cynyddu dealltwriaeth o fuddiannau amgylcheddol yn yr ardal, gyda 90% o ymatebwyr yn cytuno. Ni roddwyd unrhyw ymatebion negyddol i unrhyw rai o'r cwestiynau yn yr adran hon. Gyda'r ymatebion i'r set flaenorol o gwestiynau, yn ôl pob golwg mae hyn yn dangos bod tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei pharchu ar y cyfan, ac yn gwneud gwahaniaeth yn ystod y broses gynllunio.




### 6.3.2 Nodi meysydd i'w gwella – ansawdd ac effaith tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'r dadansoddiad rhifiadol isod yn dangos bod boddhad ar yr agwedd hon ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn uchel. Mewn gwirionedd, dyma adran yr arolwg a gafodd rai o'r sgoriau uchaf. Yr unig faes lle lleisiwyd pryderon oedd mewn perthynas ag amseroldeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru.

| **Cynllunio strategol – ansawdd tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
|---|---|
| 8: Mae'r dystiolaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn glir, yn hawdd ei deall ac yn addas at ei diben arfaethedig | 4 |
| 9: Mae'r dystiolaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn fformat sy'n hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio | 4 |
| 10: Mae'r dystiolaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hategu â rhesymu clir am yr arwyddocâd sy'n gysylltiedig â'r dystiolaeth | 3.9 |
| 11: Mae'r dystiolaeth a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei darparu mewn modd amserol | 3.2 |
| **Cynllunio strategol – effaith tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
| 12: Roedd tystiolaeth a chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ychwanegu gwerth at ein cynllun, ein polisi neu ein strategaeth | 4.3 |
| 13: Roedd y cyngor ynglŷn â dehongli tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i sicrhau bod ein dull ar gyfer ymdrin â materion amgylcheddol yn gadarn | 3.9 |
| 14: Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i lywio'r broses o nodi dyraniadau tir | 4 |
| 15: Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i lywio'r weledigaeth a'r polisïau yn ein cynlluniau strategol | 4.1 |

| | |
|---|---|
| 16: Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn helpu i gynyddu ein dealltwriaeth o'r buddiannau amgylcheddol o fewn ardal y cynllun datblygu lleol | 4.1 |


#### 6.3.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – Camau gweithredu ar gyfer gwella


Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro amseroldeb ei ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio datblygu lleol, ond nid ydym yn ymwybodol o golli unrhyw derfynau amser statudol ar gyfer ymateb. Gan na ddarparwyd unrhyw wybodaeth bellach am y cyfnodau yn ystod y broses gynllunio lle ystyrir na chafodd derfynau amser eu bodloni, mae'n anodd rhoi sylw i'r mater hwn. Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r ymatebion hyn ymhellach trwy ein gwaith gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

### 6.4 Cynllunio strategol – ymgysylltiad gweithredol

#### 6.4.1 Canlyniadau'r arolwg

Mae datganiad gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud y byddant yn "ceisio cyfleoedd i uchafu manteision rheoli adnoddau naturiol a'r amgylchedd mewn modd cynaliadwy, darparu tystiolaeth gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod pob cam o'r broses gynllunio, a darparu cyngor ychwanegol yn ystod camau anstatudol pan fydd adnoddau'n caniatáu". Gofynnwyd dwy set o gwestiynau ynglŷn â'r testun hwn – roedd y gyntaf yn ymwneud â sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio lleol a'r ail yn canolbwyntio ar yr effaith mae hyn wedi'i chael.







Ar y cyfan cafwyd ymateb gadarnhaol i'r set hon o gwestiynau, gyda bron 70% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu â'u gwaith ar eu cynlluniau strategol mewn modd agored a chadarnhaol. Ychydig iawn o ymatebion negyddol a gafwyd i'r set hon o gwestiynau, ond roedd rhai cwestiynau lle cafwyd nifer cymharol uchel o ymatebwyr yn rhoi ateb niwtral. Er enghraifft, dywedodd dros 40% nad oeddent yn siŵr a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhesymu tryloyw yn rhan o'i gyngor.

Er bod yr adborth cyffredinol yn gadarnhaol, mae’n bosibl bod rhai meysydd lle y gellid gwella'r gwasanaeth ymhellach.

Yn dilyn y cwestiynau am ymgysylltiad Cyfoeth Naturiol Cymru, gofynnwyd i ymatebwyr am yr effaith roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i chael ar y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau.




Mae'r darlun a ddaeth i'r amlwg o'r set hon o gwestiynau'n galonogol, gyda thros 90% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu eu bod yn gallu cyflawni cynllun sy'n gwella'r amgylchedd neu'n ei amddiffyn yn well. Ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol i'r set hon o gwestiynau, ac roedd nifer yr ymatebion niwtral hefyd yn isel, sy'n cryfhau'r argraff gyffredinol mae'r set hon o gwestiynau'n ei chreu bod cyngor a thystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu derbyn yn dda ac yn gwneud gwahaniaeth at ei gilydd.

### 6.4.2 Nodi meysydd i'w gwella – ymgysylltiad gweithredol

Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn sgoriau uchel am y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn yr adran hon. Mae nifer o gwestiynau am effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn sgôr arbennig o uchel.

Mae'r unig gwestiwn lle cafodd gwasanaethau Cyfoeth Naturiol Cymru sgôr rywfaint yn is yn ymwneud â chysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws gwahanol feysydd ei gyfrifoldeb.

| **Cynllunio datblygiad – ymgysylltiad gweithredol** | |
|---|---|
| 17: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor ynglŷn â sut mae dyraniadau tir y cynllun yn amddiffyn ac yn gwella amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru | 3.73 |

| | |
|---|---|
| 18: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor ynglŷn â sut mae polisïau'r cynllun yn amddiffyn ac yn gwella amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru | 3.82 |
| 19: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor ynglŷn â sut mae gweledigaeth, nodau ac amcanion y cynllun neu'r strategaeth yn amddiffyn ac yn gwella amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru | 3.73 |
| 20: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu â'n gwaith cynllunio strategol ni mewn modd agored a chadarnhaol | 3.75 |
| 21: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor ac iddo resymu a ffynonellau tystiolaeth clir | 3.55 |
| 22: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cyngor a oedd yn gyson ar draws ei feysydd cyfrifoldeb | 3.42 |
| 23: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu rhesymu tryloyw yn rhan o'i gyngor | 3.58 |
| 24: Gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu â ni mewn modd gweithredol, er mwyn inni ddeall y risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â buddiannau amgylcheddol ac adnoddau naturiol | 3.55 |
| **Cynllunio datblygiad – effaith ymgysylltiad gweithredol** | |
| 25: Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu ein bod yn gallu cyflawni cynllun sy'n gwella adnoddau naturiol a'r amgylchedd neu'n eu hamddiffyn yn well | 4.1 |
| 26: Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn hawdd deall y mesurau lliniaru neu'r newidiadau i bolisïau yr oedd eu hangen er mwyn osgoi effeithiau amgylcheddol andwyol | 3.9 |
| 27: Roedd cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei gwneud yn hawdd deall y ffordd mae effeithiau amgylcheddol posibl yn rhyngweithio | 3.8 |
| 28: Roedd dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ymgysylltu'n ychwanegu gwerth at y broses gynllunio | 4 |

### 6.4.3 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru – meysydd i'w  gwella

Roedd yr adborth manwl a roddwyd yn rhan o'r arolwg yn nodi bod o leiaf rhai o'r problemau ynglŷn â chysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod i'r amlwg yn fuan ar ôl i Gyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu, a bod ymatebwyr o'r farn bod y gwasanaeth wedi gwella ers hynny.

Serch hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y byddai cyflwyno rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu â chynlluniau strategol yn helpu i sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael gwasanaeth mwy cyson. Rydym hefyd o'r farn y byddai egluro ein rôl yn asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau rheoliadau  cynefinoedd yn rhan o ddatganiad gwasanaeth ar gyfer cyflawni Cyfoeth Naturiol Cymru o gymorth yn hyn o beth.


## 6.5 Mewnbwn Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â phrosesau cynllunio penodol


### 6.5.1 Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AASau) ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (ARhCau

Gofynnwyd amrediad o gwestiynau i ymatebwyr am fewnbwn Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiadau Perygl Llifogydd Strategol. Ychydig yn unig o ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiynau hyn, gyda'r rhan fwyaf yn dweud nad oeddent wedi cael profiad o gydgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru yn uniongyrchol ynglŷn â'r cwestiynau hyn. Oherwydd nifer isel yr

ymatebwyr, ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal dadansoddiadau rhifiadol pellach ar y data hwn, ac mae'r graffiau a roddir yma er gwybodaeth yn unig.


Roedd y set gyntaf o gwestiynau'n canolbwyntio ar gyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at asesiadau amgylcheddol strategol/asesiadau rheoliadau cynefinoedd. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn rhoi darlun cadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiadau am gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a chanddynt y profiad perthnasol yn cytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio dull ar gyfer rheoli a lliniaru risg sy'n seiliedig ar ddatrys problemau, yn darparu cyngor yn brydlon ac yn ychwanegu gwerth at y cynllun/strategaeth o dan sylw. Roedd ymatebwyr yn cael y wybodaeth sylfaenol a'r cyngor ynglŷn â materion amgylcheddol a roddwyd i awdurdodau lleol ar gyfer asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau rheoli cynefinoedd yn arbennig o effeithiol.






Yn ogystal, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ymatebwyr am effaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau rheoliadau cynefinoedd (gweler y diagram uchod). Roedd ymatebion i'r set hon o gwestiynau'n dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau rheoli cynefinoedd yn golygu bod gan yr awdurdod ragor o eglurder am effaith amgylcheddol debygol y cynllun a'i bolisïau.


Roedd yr holl ymatebwyr a chanddynt y profiad perthnasol yn nodi eu bod naill ai'n fodlon neu rywfaint yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag asesiadau rheoliadau cynefinoedd ac asesiadau amgylcheddol strategol.





### 6.5.2 Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd mewn perthynas ag Asesiadau Goblygiadau Llifogydd Strategol. Roedd nifer yr ymatebwyr a nododd fod ganddynt brofiad uniongyrchol yn fach iawn, ac o'r herwydd dylid trin y canlyniadau'n ofalus.

Roedd y set gyntaf o gwestiynau'n canolbwyntio ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sy'n dangos bod darpariaeth data Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael sgôr arbennig o uchel. Roedd yr unig ymatebwr i fynegi unrhyw fath o anfodlonrwydd yn gwneud hynny mewn perthynas ag amseriad mewnbynnau Cyfoeth Naturiol Cymru.






Gofynnwyd i ymatebwyr am eu barn ynglŷn ag effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd – cafwyd canlyniad cadarnhaol, gyda'r holl ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r holl ddatganiadau am effaith cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.




## 6.6 Casgliad: Boddhad cyffredinol ar gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynlluniau strategol

Ar ddiwedd yr arolwg gofynnwyd i ymatebwyr raddio eu boddhad cyffredinol ar wasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn nodi bod y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n fodlon neu rywfaint yn fodlon (73%). Ni ddywedodd yr un o'r ymatebwyr ei fod yn anfodlon, ac mae cyfuno hynny â gweddill canlyniadau'r arolwg yn dangos bod cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyfan, yn cael ei dderbyn yn dda.






Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd nodi a oeddent yn hapus yn gyffredinol gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â gwahanol fathau o gynlluniau, neu a oeddent yn credu y gellid gwneud gwelliannau. Mae hyn yn dangos unwaith eto bod boddhad ynghylch mewnbwn cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn â'r broses gynllunio'n uchel, gyda chanran fach yn unig o ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo bod angen gwelliannau.

Mae meysydd lle dywedodd rhai ymatebwyr y gellid gwneud gwelliannau yn cynnwys cyngor a chyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru am rywogaethau a chynefinoedd a warchodir (30%) a'r cyngor am asesiadau amgylcheddol strategol ac asesiadau rheoliadau cynefinoedd (20%).

## Casgliad

Mae'r ddau arolwg a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi caniatáu iddynt nodi meysydd lle mae eu gwasanaeth cynghori'n perfformio'n dda ar hyn o bryd. Mae'r prif negeseuon fel a ganlyn:

- Mae adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda chyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at gynlluniau strategol yn cael ei barchu'n arbennig o uchel.

- Mae'r adborth yn awgrymu y gellid gwneud rhai gwelliannau o ran ymgysylltu'n gynnar ac eglurdeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae canfyddiad cwsmeriaid o amseroldeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn llai cadarnhaol nag ystadegau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer amseroedd ymateb.

- Mae ymwybyddiaeth o ddatganiad gwasanaeth a dogfennau cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol yn gymharol isel, a gellir gwneud gwelliannau yn hyn o beth.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi dechrau gwaith i fynd i'r afael â'r prif broblemau a godwyd, gan gynnwys y canlynol:

- Datblygu gwasanaeth cynghori dewisol ar gynllunio datblygiad. Bydd hyn yn rhoi mynediad gwell i ddatblygwyr at gyngor yn ystod camau cynnar y broses gynllunio.
- Cyhoeddi datganiad gwasanaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth cynghori dewisol ar gynllunio, a fydd yn rhoi rhagor o eglurdeb i ddatblygwyr ynglŷn â lefel y gwasanaeth dewisol mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu ei darparu.
- Cyflwyno categorïau ymateb i wella eglurdeb ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru (cwblhawyd).
- Datblygu cyfres o nodiadau cyfarwyddyd gweithredol, er mwyn gwella cysondeb cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyflwyno cyfarwyddyd i staff ynglŷn â'r broses o ofyn i derfyn amser gael ei estyn.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o safonau gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (yn parhau).
- Datblygu rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu ynglŷn â chynlluniau strategol, gyda'r nod o ddarparu eglurdeb gwell ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ynghylch y gwasanaeth y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei gynnig (yn parhau).
- Datblygu datganiad gwasanaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys egluro ei waith ynghylch asesiadau rheoliadau cynefinoedd ac asesiadau amgylcheddol strategol (yn parhau).

PEIDIWCH Â DILEU'R TORIAD ADRAN HWN

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru